COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 13 CHWEFROR 2018, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

CE Smith PJ White HM Williams Cyng RE Young

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Deborah Exton | Rheolwr Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebaue |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

154. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

155. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-22

Gofynnodd y Prif Weithredwr am gymeradwyaeth i Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor 2016-20 i 2018-22 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Dywedodd fod y Cynllun Corfforaethol a oedd yn cwmpasu 2018-2020 yn nodi'r tair blaenoriaeth gorfforaethol, a oedd yn seiliedig ar ymgynghoriad cyhoeddus helaeth o'r enw "Siapio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr", a gynhaliwyd yn 2015. Rhoddodd wybod i'r Cabinet am yr angen i adeiladu ar y cynllun corfforaethol cyfredol a nododd eto’r tair blaenoriaeth gorfforaethol gyfredol ar gyfer y pedair blynedd sydd i ddod. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi egwyddorion a fydd yn llywodraethu sut mae'r Cyngor yn gweithredu a'r dyhead i weithio fel un Cyngor.

Dywedodd fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi ystyried y cynllun drafft ac wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r cynllun. Roedd cyfres o sylwadau adeiladol ar gyfer gwelliant ac i'w cynnwys wedi'u gwneud gan y broses graffu, a oedd wedi'u hystyried a lle bynnag y bo'n ymarferol, wedi'i gynnwys yn y Cynllun drafft. Dywedodd y bydd y Cynllun yn cael ei gefnogi gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, cynlluniau busnes a chynlluniau gwasanaeth y gyfarwyddiaeth. Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Cyngor a fyddai'n cael eu hadolygu'n flynyddol i ystyried amgylchiadau newidiol a'r cynnydd a wnaed ac i sicrhau bod gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu bodloni

Adroddodd y Prif Weithredwr ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd. Dywedodd fod 15 digwyddiad ymgysylltu wedi'u cynnal ar draws y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd fod y canlyniadau'n dangos cytundeb cryf gyda'r tair blaenoriaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriad "Siapio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr" arall yn 2017, a wnaeth gadarnhau canfyddiadau 2015. Cynhaliwyd ymarferion ymgynghori mawr gan y Cyngor a'i bartneriaid yn 2017, ar yr Asesiad Llesiant a'r Asesiad Poblogaeth. Canfu'r rhain fod blaenoriaethau'r Cyngor yn adlewyrchu blaenoriaethau dinasyddion ac felly mai dyma'r rhai cywir i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yn y pedair blynedd nesaf.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cabinet am ddyletswydd y Cyngor i osod amcanion llesiant a gwelliant. Unwaith y byddent wedi'u cymeradwyo, y tair blaenoriaeth gorfforaethol fyddai amcanion lles y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r amcanion gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Dywedodd fod y Datganiad Lles, sy'n ofynnol gan y Ddeddf, wedi'i ymgorffori yn y cynllun a'r ymrwymiadau yw'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion gwella a llesiant integredig. Hysbysodd y Cabinet fod y cynllun hefyd yn nodi sut mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Dywedodd yr Arweinydd fod y broses Trosolwg a Chraffu wedi bod yn drylwyr iawn wrth graffu ar y Cynllun Corfforaethol ac roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau wedi'u cynnwys yn y Cynllun. Dywedodd fod dau ymarferiad ymgynghori wedi cael eu cynnal ar y Cynllun. Ar y ddau achlysur roedd mwyafrif llethol aelodau'r cyhoedd a ymatebodd o blaid blaenoriaethau'r Cyngor.

Roedd Aelod Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y Cabinet yn falch o weld bod y dangosyddion newydd yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu nodau'r Cyngor yn fwy cywir na'r Cynllun Corfforaethol blaenorol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y nod yn y Cynllun Corfforaethol o greu canol trefi llwyddiannus. Hysbysodd y Cabinet nad oedd camerâu yn cael eu defnyddio i gyfrif nifer yr ymwelwyr i ganol tref Pencoed. Dywedodd hefyd fod sylwadau wedi eu derbyn bod y Cynllun Corfforaethol yn rhy fyr, ond eglurodd fod y Cyngor yn cynnal dros 750 o wasanaethau gwahanol a theimlai fod gan y Cynllun y cydbwysedd cywir.

<u>PENDERFYNWYD :</u> Bod y Cabinet yn cadarnhau'r Cynllun Corfforaethol 2018-22 newydd ac yn ei argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 28 Chwefror 2018.

156. <u>STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-19 I 2021-22</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22, a oedd yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2018-22, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2018-19 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017-18 i 2027-28. Dywedodd fod y Strategaeth hefyd yn cynnwys y gofyniad Treth Gyngor arfaethedig ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref Sirol, i'w gymeradwyo gan y Cyngor, a fyddai'n cael ei gyflwyno ynghyd â gofynion Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned.

Dywedodd fod y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ochr yn ochr â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-22. Roedd y ddwy ddogfen yn cyd-fynd â'i gilydd, gan ei gwneud yn bosibl i greu cysylltiadau pendant rhwng blaenoriaethau'r Cyngor a'r adnoddau a gyfeirir i'w cefnogi. Rhoddodd y Prif Weithredwr Drosolwg Ariannol Corfforaethol a dywedodd er mai'r nod yw bod â'r gyllideb refeniw net ar £265.984m ar gyfer 2018-19, fod y gwariant cyffredinol yn llawer uwch na hyn. Gan gymryd i ystyriaeth wariant a gwasanaethau a ariennir trwy gyllid grantiau neu ffioedd a thaliadau penodol, byddai cyllideb gros y Cyngor oddeutu £400m yn 2018-19. Dywedodd fod tua £170m o'r gwariant hwn yn cael ei wario ar staff y Cyngor, gan

gynnwys athrawon a staff cefnogi ysgolion. Roedd llawer o gost y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol hefyd yn gysylltiedig â chyflogau, a oedd yn cynnwys gweithredwyr casglu gwastraff, gweithwyr gofal cartref a gofalwyr maeth. Hysbysodd y Cabinet hefyd fod y Cyngor yn wynebu derbyn llai o incwm i ariannu gwasanaethau, yn ogystal â newidiadau deddfwriaethol a demograffig. Dywedodd fod y Cyngor wedi mabwysiadu cynllun corfforaethol sy'n nodi'r dulliau y bydd yn eu cymryd i reoli'r pwysau hwn wrth barhau i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau, cyn belled ag y bo modd, sy'n bodloni anghenion y gymuned.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cabinet fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd o 0.1% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cyfateb i £115k. Roedd hyn yn cael ei wrthbwyso gan gyfrifoldebau newydd sy'n wynebu'r Cyngor o ganlyniad i'r cynnydd i'r terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl o £30,000 i £40,000 a fyddai'n costio £300,000 i'r Cyngor a chyfrifoldebau atal digartrefedd yn costio £236,000. Roedd y sefyllfa wirioneddol yn debygol o fod yn ostyngiad o 0.25% sy'n cyfateb i £500,000, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £42m i ymdrin â phwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol a £62 miliwn ar gyfer cyllid ysgolion yn ei setliad i lywodraeth leol ledled Cymru ond nid oedd yr arian hwn wedi'i neilltuo.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn bwriadu gwario £108m ar wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Yn 2017-18, roedd y Cyngor wedi cyflwyno arbediad effeithlonrwydd blynyddol o 1% ar gyfer ysgolion am bob blwyddyn o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ond ar gyfer 2018-19, nid yw lefel y gostyngiadau cyllideb sy'n ofynnol mor fawr ag a ragwelwyd. Felly, bu'n bosib amddiffyn ysgolion rhag yr arbediad o 1% am flwyddyn, ond ni fyddai modd osgoi hwn ar gyfer 2019-20 ymlaen a byddai'n rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu baratoi ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod bron i 70% o'r arbedion arfaethedig wedi'u cyflwyno, ond roedd rhai o'r arbedion a gynlluniwyd yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni oherwydd eu cymhlethdod a'u heffeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaethau. O ran Gofal Cymdeithasol a Lles, ni ofynnwyd i ni gyflawni arbedion sylweddol yn 2018-19 er mwyn atgyfnerthu'r rhaglen drawsnewid uchelgeisiol y dechreuwyd arni a gwneud y gwasanaethau hynny'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Hysbysodd y Cabinet, mewn perthynas â thir y cyhoedd ac er mwyn cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd, fod cydweithio yn digwydd gyda'r trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned a busnesau i helpu i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Adroddodd y Prif Weithredwr am y pwysau cyllidebol anochel a dewisol sy'n gwneud cyfanswm o £2.649m yn cynnwys pwysau anorfod o £1.212m ac eitemau twf dewisol o £1.437m. Roedd cynigion o £6.123m i leihau'r gyllideb wedi'u nodi o gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol i sicrhau cyllideb gytbwys. Byddai ffioedd a thaliadau yn cynyddu o leiaf yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (ar y gyfradd gyfredol, sef 3% ar hyn o bryd) ynghyd â 1% a oedd wedi cyfuno i roi cyllideb sylfaenol ar gyfer 2018-19.

Adroddodd hefyd ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017-18 i 2027-28 a hefyd y strategaeth ariannu cyfalaf, sy'n cynnwys benthyca darbodus a rhagolygon am dderbyniadau cyfalaf. Datblygwyd y ddau yn unol ag egwyddorion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac maent yn adlewyrchu setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19. Dyrannwyd cyllid cyfalaf o £6.3m gan Lywodraeth Cymru, sef dyraniad o £41,000 yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol; ond ni chafwyd unrhyw arwydd am y cyfnod y tu hwnt i hynny. Yn dilyn proses werthuso drwyadl ac adolygiad o'r swm cyfyngedig o arian sydd ar gael, datblygwyd cynlluniau cyfalaf newydd arfaethedig o £11.254m ar gyfer 2018-19 ymlaen, y byddai'r Cyngor yn cyfrannu £7.045m atynt.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cabinet fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd mai'r gofyniad cyllideb net ar gyfer y Cyngor yn 2018-19 yw £265.984m, a oedd yn gyfystyr â chynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.5%. Dywedodd hefyd wrth y Cabinet y byddai'n rhaid i'r Cyngor ariannu'r codiad cyflog i'w weithwyr. Nid oedd canlyniad y trafodaethau cenedlaethol yn hysbys eto, ond roedd y dyfarniad cyflog arfaethedig wedi cynhyrchu pwysedd cyllidebol o £2m.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y senarios ynghylch lleihau'r gyllideb ac mai'r senario mwyaf tebygol oedd gostyngiad net posibl o £32.592m yn y gyllideb dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth gymeradwyo cynigion y gyllideb fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi ei chysylltu'n agos â'r Cynllun Corfforaethol a bod y broses gyllidebol yn un barhaus ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd y cafwyd 2,619 o ymatebion i'r ymgynghoriad i'r gyllideb, a oedd yn fwy na'r ymatebion a gafwyd y llynedd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi mynegi dewis i ddiogelu gwasanaethau i bobl hŷn ac i bobl agored i niwed ac ysgolion a'r rhwydwaith priffyrdd, a byddai'r Cyngor yn buddsoddi £5m yn y rhwydwaith priffyrdd.

Cyfeiriodd Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar at yr anhawster cynyddol wrth osod y gyllideb a oedd bellach yn ymwneud â'r hyn y gallai'r Cyngor ei ddarparu yn hytrach na'r hyn yr hoffai ei gyflawni. Dywedodd wrth y Cabinet fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Gweinidog i drafod sut y byddai'r arian trawsnewid yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd mai'r gyllideb Gofal Cymdeithasol a Lles yw'r ail gyllideb fwyaf ar ôl Addysg a bod £11m o arbedion mewn gofal cymdeithasol wedi eu canfod dros y pedair blynedd diwethaf.

Dywedodd yr Arweinydd, cyhyd ag y byddai mesurau llymder yn eu lle, y byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i wneud arbedion a thoriadau i wasanaethau.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod cyflwyno'r gyllideb yn dasg oedd bron yn amhosibl a llongyfarchodd yr holl gydweithwyr a rhanddeiliaid wrth ddarparu cyllideb sydd wedi'i chydbwyso mor ofalus. Dywedodd y bu rhywfaint o hyblygrwydd gyda'r gyllideb Addysg, ond byddai pwysau ar y gyllideb yn parhau yn y dyfodol. Dywedodd hefyd fod Addysg ynghlwm wrth ddatblygiad economaidd ac er gwaethaf mesurau llymder mae'r Cyngor yn buddsoddi yn yr economi.

Dywedodd Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn anodd ei chyflwyno. Roedd yn siomedig nad oedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn dymuno gweld y gwariant ar wasanaethau hamdden a chorfforaethol wedi'i flaenoriaethu. Dywedodd fod gwasanaethau rheoleiddio a chaffael yn wasanaethau oedd o'r golwg, ond maen nhw'n cadw'r awdurdod yn ddiogel.

Roddodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau deyrnged i'r swyddogion am lunio cynigion ar gyfer y gyllideb dan amgylchiadau mor anodd a diolchodd i'r cyhoedd am ymateb i'r ymgynghoriad ar y gyllideb. Roedd yn rhannu teimladau cydweithwyr ar y Cabinet nad oeddent wedi dod i mewn i wleidyddiaeth leol i gwtogi ar wasanaethau. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r cyhoedd ddisgwyl i'r Cyngor gyflwyno penderfyniadau annymunol oherwydd mesurau llymder. Dywedodd mai'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau sy'n darparu'r gwasanaethau mwyaf gweladwy i'r cyhoedd ac y byddai'r Cyngor yn gofyn i Gynghorau Tref a Chymuned ddod yn gyfrifol am wasanaethau na allai'r Cyngor eu darparu mwyach. Dywedodd hefyd fod y Cyngor wedi cael gwybod yn y lle cyntaf y byddai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cynyddu ei braesept 5%, ond erbyn hyn roedd yn bwriadu cynyddu ei braesept 7%.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi ystyried argymhellion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ymdriniodd â'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â thegwch a dosbarthu toriadau yn y gyllideb a bod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi wynebu mwy o doriadau nag Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd mai'r Gyfarwyddiaeth a oedd wedi wynebu'r ganran uchaf o doriadau er 2013/14 yw un y Prif Weithredwr, a ddilynir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth Teuluol, y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Dywedodd wrth y Cabinet mai gwerth yr arbedion hynny yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yw £6m, a bod arbedion o £12m wedi'u gwneud yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd cyflawni'r gyllideb wedi bod yn hawdd i unrhyw Gyfarwyddiaeth, ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud buddsoddiad mewn ymdrin ag eiddo gwag, tasglu'r cymoedd i adfywio'r cymoedd, rhaglen moderneiddio ysgolion Band B a gosod technoleg LED yn yr holl oleuadau stryd yn y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r Cyngor hefyd yn buddsoddi £5m ar gynnal y ffyrdd a'r llwybrau troed; yn ogystal, byddai'n buddsoddi £600,000 yn y ganolfan breswyl i Blant ar gyfer gofal therapiwtig a derbyniadau gofal brys. Byddai'r Cyngor hefyd yn buddsoddi £500,000 yn y Ganolfan Lles yn Sunnyside a £360,000 i ymestyn mynwentydd Porthcawl a Chorneli.

<u>PENDERFYNWYD :</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22, gan gynnwys cyllideb refeniw 2018-19, Rhaglen Gyfalaf 2017-18 i 2027-28 a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018-19 ac argymhellodd y rhain i'r Cyngor i'w mabwysiadu. Yn benodol, cymeradwyodd y dylid anfon yr elfennau penodol canlynol ymlaen i'r Cyngor i'w cymeradwyo:

- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2013/14 2018-19 i 2021-22
- Y Gofyniad Cyllideb Net o £265,984,097 yn 2018-19.
- Cyllidebau 2018-19 fel y'u dyrennir yn unol â Thabl 9 ym mharagraff 3.3.
- Rhaglen Gyfalaf 2017-18 i 2027-28.
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018-19 a Dangosyddion Rheoli a Darbodus y Trysorlys 2018-19 i 2021-22.
- Treth Cyngor Band D o £1,395.51 ar gyfer 2018-19 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr .

157. <u>EITEMAU BRYS</u>

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:28